SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



# Arolwg rhiant/gofalwr Gwasanaeth SSCE Cymru (2020) – canfyddiadau

**Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2020**

Awdur: Millie Taylor, Rheolwr Rhaglen SSCE Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

# Crynodeb Gweithredol

Yn 2020, cynhaliodd **SSCE Cymru** arolwg rhiant/gofalwr Plant y Lluoedd Arfog, gan roi cyfle iddynt rannu eu profiadau am fyw yng Nghymru / symud i Gymru, yr effaith mae eu ffordd o fyw yn ei gael ar addysg eu plant a'r gefnogaeth maent wedi ei chael gan ysgolion.

Mae SSCE Cymru yn falch bod y rhieni/gofalwyr a gwblhaodd yr arolwg hwn yn cynrychioli amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau o'r tri Gwasanaeth. Diolchwyd i bawb a gymerodd amser i rannu manylion eu profiadau. Bydd yr ymatebion yn helpu budd-ddeiliaid i ddeall yn well profiadau a heriau y mae teuluoedd y Lluoedd Arfog yn ei wynebu a pha gymorth sy'n eu helwa i oresgyn rhwystrau.

Mae'r ymatebion yn awgrymu bod llawer o gefnogaeth lwyddiannus iawn yn ei le mewn ysgolion yng Nghymru ond mae amrywiaeth sylweddol ar draws ardaloedd. Mae'r data hefyd yn dynodi bod nifer o systemau cymorth eraill a all fod o fantais i blant y Lluoedd Arfog. Mae cymharu'r ymatebion a gasglwyd yn y pedwar awdurdod lleol allweddol (ALlau*) yn ei gwneud yn bosibl i weld bod yr ysgolion yn yr ardaloedd hyn gyda dealltwriaeth well o brofiadau plant y Lluoedd Arfog ac wedi'u paratoi yn well i gefnogi'r grŵp unigryw o ddysgwyr.

Ynghyd ag adroddiad **Arolwg Ysgolion SSCE Cymru (2019)** ac adroddiad **Gwrando ar Blant Milwyr (2020)**, bydd y canfyddiadau o'r arolwg hwn yn darparu tystiolaeth a all gefnogi newidiadau system a pholisi yn Llywodraeth Cymru, o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mewn ysgolion a'r ALlau. Byddent hefyd yn cyfrannu tuag at ddatblygu adnoddau SSCE Cymru newydd.

# Cyflwyniad

**Pam?** Mae SSCE Cymru yn cydweithio â gweithwyr addysg proffesiynol a Theuluoedd Milwyr ledled Cymru i ennill dealltwriaeth o brofiadau Plant Milwyr mewn addysg. Mae'r arolwg yn ffordd bwysig i roi cyfle i rieni / gofalwyr plant aelodau'r Lluoedd Arfog rannu eu profiadau am fyw yng Nghymru / symud i Gymru, yr effaith mae eu ffordd o fyw yn ei gael ar addysg eu plant a'r gefnogaeth maent wedi ei chael gan ysgolion. Bydd y canfyddiadau yn helpu SSCE Cymru i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi plant y Lluoedd Arfog yn y dyfodol.

**Sut?** Roedd aelodau **Rhwydwaith SSCE Cymru** yn cefnogi cynhyrchu'r arolwg rhiant/gofalwr drwy awgrymu cynnwys drafft yn ystod **Diwrnod Rhanddeiliaid** SSCE Cymru, cyfrannu at y cynnwys, profi'r arolwg a'i hybu gyda'u rhwydweithiau eu hunain.

**Pwy?** Cwblhaodd cyfanswm o 121 o rieni/gofalwyr plant y Lluoedd Arfog (119 Saesneg a 2 Gymraeg) yr arolwg, a defnyddiwyd eu hymatebion yn yr adroddiad hwn.

**Pryd?** Cyflwynwyd ymatebion yr arolwg o fis Medi i Hydref 2020.

**Cymharu canfyddiadau**

Drwy gydol yr adroddiad, nodwyd lle mae yna wahaniaethau sylweddol yn yr ymatebion gan y pedwar Awdurdod Lleol Allweddol sydd â chymunedau milwrol sydd wedi hen sefydlu:

- Ynys Môn - RAF Y Fali
- Sir Benfro – Barics Cawdor (Hwlffordd)
- Powys - Pencadlys Brigâd 160 (Cymru) (Brycheiniog)
- Bro Morgannwg – RAF St Athan.



* Y pedwar All allweddol yw'r rhai sydd â chymunedau milwrol sefydledig (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg).

# Ymatebwyr

Mae'r canrannau isod wedi cael eu crynhoi i'r 1.0% agosaf.

## 1.1.1 Cysylltiad â'r Lluoedd Arfog

- 68% Un rhiant/gofalwr yn aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog (Lluoedd Arfog Rheolaidd)
- 9% Un rhiant/gofalwr yn bersonél presennol o'r Lluoedd Arfog (Milwr wrth gefn llawn amser/rhan amser)
- 1% Dau riant/gofalwr yn aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog (Lluoedd Arfog Rheolaidd)
- 2% Dau riant/gofalwr yn bersonél presennol o'r Lluoedd Arfog (Milwr wrth gefn llawn amser/rhan amser)
- 5% Un neu ddau riant/gofalwr yn gyn-filwyr (wedi gadael o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf)
- 24% Un neu ddau riant/gofalwr yn gyn-filwyr (wedi gadael dros ddwy flynedd yn ôl)

## 1.1.2 Cysylltiad â'r Gwasanaeth(au)

- 14% Y Llynges Frenhinol / Môr-filwyr Brenhinol
- 64% Byddin Brydeinig
- 23% Lluoedd Arfog Brenhinol.

*121 ymateb*

## 1.2.1 Awdurdod Lleol

- 1% Blaenau Gwent
- 6% Pen-Y-Bont ar Ogwr
- 7% Caerffili
- 2% Caerdydd
- 3% Sir Gaerfyrddin
- 2% Ceredigion
- 0% Conwy
- 2% Sir Ddinbych
- 1% Sir y Fflint
- 0% Gwynedd
- 5% Ynys Môn
- 1% Merthyr Tudful
- 11% Sir Fynwy
- 2% Castell-nedd Port Talbot
- 2% Casnewydd
- 18% Sir Benfro
- 8% Powys
- 3% Rhondda Cynon Taf
- 2% Abertawe
- 1% Torfaen
- 21% Bro Morgannwg
- 2% Wrecsam.

*Gan gynnwys cyfanswm o 64 o ymatebion o'r pedwar ALl allweddol**

## 1.2.2 Byw yng Nghymru

- 11% Llai na blwyddyn
- 17% Rhwng 1 a 2 flynedd
- 12% Rhwng 3 a 4 blynedd
- 28% Rhwng 5 a 10 mlynedd
- 21% Mwy na 10 mlynedd
- 11% Erioed.

*121 ymateb*






* Y pedwar All allweddol yw'r rhai sydd â chymunedau milwrol sefydledig (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg).

### 1.3.1 Ysgolion Plant y Lluoedd Arfog

O'r 121 o rieni/gofalwyr a gwblhaodd yr arolwg, mae ganddynt blant ar draws holl grwpiau oedran (o'r meithrin i flwyddyn 13) ac 11% gyda phlant sydd wedi gadael addysg llawn amser gorfodol ond a addysgwyd yng Nghymru. Roedd gan 38% o'r ymatebwyr blant y Lluoedd Arfog mewn mwy nac un ysgol.

### 1.3.2 Math o ysgol

- 91% Ysgolion a gynhelir (awdurdod lleol)
- 4% Ysgolion Annibynnol (talu ffi)
- 5% y ddau.

### 1.3.3 Iaith yr ysgol

- 61% Cyfrwng Saesneg
- 27% Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o Gymraeg
- 10% Cyfrwng Cymraeg
- 2% Dwy ffrwd
- 15% Cyfrwng Cymraeg gyda defnydd sylweddol o Saesneg
- 6% Ansicr.

### 1.3.4 Nifer o ysgolion a fynychwyd gan blant y Lluoedd Arfog

- 46% 1-2 ysgol
- 35% 3-4 ysgol
- 12% 5-6 ysgol
- 5% 7-9 ysgol
- 2% 10+ ysgol

*175 Plant y Lluoedd Arfog*

***121 ymateb***

**Arsylwadau Allweddol**

- 54% o blant y Lluoedd Arfog wedi mynychu o leiaf tair ysgol. Mae hyn yn debyg i ganfyddiadau'r adroddiad **Gwrando ar Blant Milwyr (2020)**, lle roedd 52% o'r rhai a gyfranogwyd yn y grwpiau trafod wedi mynychu o leiaf tair ysgol.



* Y pedwar All allweddol yw'r rhai sydd â chymunedau milwrol sefydledig (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg).

# Profiadau teuluoedd milwyr

## 2.1 Profiadau'r Lluoedd Arfog

- **80% wedi profi rhiant/gofalwr i ffwrdd ar ddyletswydd weithredol**
- **76% wedi profi symud cartref**
- **74% wedi profi gwahanu oddi wrth riant / gofalwr sy'n gwasanaethu yn sgil hyfforddiant**
- **65% wedi profi symud ysgolion**
- **59% wedi profi rhiant/gofalwr sy'n gwasanaethu yn byw i ffwrdd (byw ar ben eu hunain/ar benwythnosau)**
- **49% wedi profi symud rhwng gwledydd o fewn y DU**
- **26% wedi profi byw dramor**
- **26% wedi profi trosglwyddo allan o'r Lluoedd Arfog.**

Wrth edrych ar yr ymatebion o'r pedwar ALl* allweddol, roedd teuluoedd 10% yn fwy tebygol o brofi symud cartref, symud ysgol a symud rhwng gwledydd o fewn y DU. Roeddent 6% yn llai tebygol o brofi trosglwyddo allan o'r Lluoedd Arfog.

*121 ymateb*

## 2.2 Profiadau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar les a phrofiadau addysgol plant yn y Lluoedd Arfog

- **60% Gwneud ffrindiau**
- **55% Diogelwch swydd ar gyfer rhiant sy'n gwasanaethu**
- **39% Bod yn rhan o gymuned y Lluoedd Arfog**
- **34% Cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol**
- **31% Dysgu Cymraeg**
- **28% Mynediad at ostyngiadau milwrol ar gyfer gwasanaethau, bwyd, hamdden ac ati**
- **26% Ysgolion yn cael mynediad at gyllid ychwanegol i gefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog.**

*121 ymateb*

## 2.3 Wedi effeithio'n negyddol ar blant y Lluoedd Arfog

- **56% Delio gydag effaith emosiynol gwahanu**
- **50% Ymgartrefu mewn ysgol newydd**
- **42% Symud i ffwrdd a hiraethu am ffrindiau a theulu o ysgol / cartref blaenorol**
- **41% Ymgartrefu mewn ardal newydd a dysgu am yr amgylchedd newydd**
- **40% Ysgol(ion) heb ddealltwriaeth da o fywyd teulu yn y Lluoedd Arfog**
- **40% Delio ag effaith emosiynol rhiant/gofalwr yn dychwelyd o leoliad/hyfforddiant**
- **37% Ymgartrefu mewn cartref newydd**
- **34% Addasu i gwricwlwm gwahanol mewn awdurdodau gwahanol/ffyrdd newydd o ddysgu.**

*121 ymateb*

Wrth edrych ar yr ymatebion o'r pedwar ALl allweddol*, roedd canran llawer llai (28%) o ymatebion yn dynodi bod eu plant wedi cael eu heffeithio yn negyddol wrth ddelio ag effaith emosiynol rhiant sy'n gwasanaethu yn dychwelyd o leoliad/hyfforddiant.

* Y pedwar All allweddol yw'r rhai sydd â chymunedau milwrol sefydledig (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg).

**Arsylwadau Allweddol**

- Mae teuluoedd sy'n byw yn y pedwar ALl allweddol* yn fwy tebygol o gael profiadau yn ymwneud â symudedd. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd fodd y personél y Lluoedd Arfog yn yr ardaloedd hynny fel arfer yn llawn amser, lle mae'n arfer i deuluoedd fynd gyda'r personél i'w lleoliad, sydd fel arfer yn ddwy flynedd o hyd. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o deuluoedd hefyd wedi profi person sy'n gwasanaethau yn byw i ffwrdd (byw ar ben eu hunain/ar benwythnosau) sy'n alinio â **Model Lletya'r Dyfodol** y Weinyddiaeth Amddiffyn, wedi'i dargedu i ddarparu mwy o sefydlogrwydd i deuluoedd y Lluoedd Arfog.
- Gallai'r canran llai o blant y Lluoedd Arfog yn y pedwar ALl allweddol* sy'n cael eu heffeithio'n negyddol gan riant sy'n gwasanaethu yn dychwelyd o leoliad/hyfforddiant, fod oherwydd bod y teuluoedd hynny'n fwy profiadol o ddelio â lleoliad, a/neu gefnogaeth gan uned leol y Lluoedd Arfog a/neu yr ysgol yn fwy effeithiol.
- Mae'r profiadau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar blant y Lluoedd Arfog yn amrywio ac yn cwmpasu esiamplau cadarnhaol o fod yn rhan o deulu'r Lluoedd Arfog a chael eu haddysgu yng Nghymru.
- Mae'r profiadau y mae plant y Lluoedd Arfog wedi eu cael sydd wedi cael effaith negyddol yn gysylltiedig yn bennaf â'u hanghenion emosiynol a theimladau o ansicrwydd. Gall nifer o'r heriau hyn gael eu goresgyn trwy systemau cefnogi strwythuredig a chyson a ddarperir gan y rhai â dealltwriaeth da o brofiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog.










* Y pedwar All allweddol yw'r rhai sydd â chymunedau milwrol sefydledig (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg).

# Profiadau Addysgol

### 3.1 Yr heriau sy'n wynebu ysgolion wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog

- **81% Ennill dealltwriaeth o ffordd o fyw y Lluoedd Arfog**
- **58% Adnabod plant y Lluoedd Arfog**
- **56% Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog gyda'u hanghenion emosiynol a lles**
- **44% Ennill dealltwriaeth o systemau addysgol gwahanol trwy gydol y DU a thramor**
- **44% Cynorthwyo plant y Lluoedd Arfog i ddysgu Cymraeg am y tro cyntaf**
- **42% Cael gwybodaeth ar blentyn y Lluoedd Arfog o ysgol flaenorol (gan gynnwys copïau o'u gwaith/ llyfrau blaenorol).**

Wrth edrych ar yr ymatebion o'r pedwar ALl allweddol*, roedd canran llawer is (77%) o ymatebion yn nodi bod ysgolion yn wynebu heriau wrth gael dealltwriaeth o ffordd o fyw y Lluoedd Arfog. Dynododd ganran uwch (56%) bod ysgolion yn wynebu heriau wrth ddeall systemau addysgol gwahanol trwy'r DU a thramor.


*121 ymateb*

### 3.2.1 Systemau cefnogi sydd wedi elwa plant y Lluoedd Arfog

- **31% Cyfryngau cymdeithasol yr ysgol (e.e. Facebook/Twitter)**
- **26% Nodi plant y Lluoedd arfog yn ystod y broses dderbyn**
- **21% Apiau Cyfathrebu (e.e. ClassDojo/Slack)**
- **21% Gweithgareddau Allgyrsiol**
- **17% Cymorth Emosiynol/lles/bugeiliol (e.e. ELSA/Nurture/Thrive/Cwnsela)**
- **14% Aelod penodol o staff i gefnogi plant a theuluoedd y Lluoedd Arfog.**

Wrth edrych ar yr ymatebion o'r pedwar ALl allweddol*, roedd canran uwch yn nodi buddion cyfryngau cymdeithasol yr ysgol (38%), adnabod plant y Lluoedd Arfog (35%) a chael aelod dynodedig o staff (22%).







* Y pedwar All allweddol yw'r rhai sydd â chymunedau milwrol sefydledig (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg).

### 3.2.2 Systemau cefnogi a fyddai'n elwa plant y Lluoedd Arfog

- **81% Polisi absenoldeb yn ystod y tymor ar gyfer plant y Lluoedd Arfog**
- **75% Cael personél y Lluoedd Arfog ar gorff llywodraethu'r ysgol**
- **74% Gwybodaeth am gefnogaeth ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog ar wefan yr ysgol**
- **74% Aelod penodol o staff i gefnogi plant a theuluoedd y Lluoedd Arfog.**
- **69% Canfod y staff sy'n aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog**
- **69% Fforwm y Lluoedd Arfog/rhieni**
- **65% Sesiynau galw heibio a chefnogi teuluoedd y Lluoedd Arfog**
- **64% Mentora/cefnogaeth rhwng cyfoedion**
- **64% Monitro manwl o gynnydd academaidd**
- **62% Offer digidol i gefnogi cyfathrebu gydag ysgolion eraill a rhieni/gofalwyr yn ystod gwahanu**
- **62% Rhaglen les (e.e. Milwyr Bach)**
- **61% Nodi plant y Lluoedd Arfog yn ystod y broses dderbyn**
- **61% Cymorth Emosiynol/lles/bugeiliol (e.e. ELSA/Nurture/Thrive/Cwnsela)**
- **60% 'Gofod Diogel' penodedig ar gyfer plant Milwyr.**

Wrth edrych ar yr ymatebion o'r pedwar ALl allweddol*, roedd canran is yn nodi y byddai ysgolion oedd yn adnabod plant y Lluoedd Arfog (52%) a chael aelod dynodedig o staff (67%) yn fuddiol. Nododd canran uwch (69%) y byddai'n fuddiol i gael offer i gefnogi cyfathrebu gydag ysgolion eraill a rhieni/gofalwyr yn ystod gwahanu.

*121 ymateb*

**Arsylwadau Allweddol**

- Mae'r amrywiaeth o ymatebion o'r pedwar ALl allweddol* o ran defnydd yr ysgol o gyfryngau cymdeithasol, adnabod plant y Lluoedd Arfog a bod ag aelod dynodedig o staff yn awgrymu bod y gweithgareddau hyn eisoes yn debygol o ddigwydd mewn ysgolion yn yr ardaloedd hynny.
- Roedd teuluoedd oedd yn byw yn y pedwar ALl allweddol* yn llai tebygol o ddynodi bod ysgolion yn ei gweld yn heriol ceisio deall ffordd o fyw y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod yr ysgolion yn yr ardaloedd hynny gysylltiad cryfach gyda'r Lluoedd Arfog yn sgil eu hagosatrwydd at uned a phresenoldeb milwrol yn y gymuned leol.
- Mae'r heriau mae ysgolion yn ei wynebu wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog wedi cael eu nodi gan rieni/gofalwyr, yn alinio â safbwyntiau ysgolion yng Nghymru, fel y nodwyd yn adroddiad **Arolwg Ysgol SSCE Cymru (2019).**
- Mae'r systemau cefnogi a nodwyd fel y rhai mwyaf effeithiol ar gyfer plant y Lluoedd Arfog yn amrywiol ond yn bennaf maent yn gysylltiedig â chyfathrebu cryf ac adnabod anghenion.
- Nid oedd prif ymatebion am yr hyn fyddai o fantais i blant y Lluoedd Arfog yn cael eu hadlewyrchu yn yr ymatebion am yr hyn sydd wedi bod o fantais. Mae hyn yn awgrymu nad yw nifer o'r systemau cefnogi hyn yn eu lle mewn ysgolion ar hyn o bryd.

* Y pedwar All allweddol yw'r rhai sydd â chymunedau milwrol sefydledig (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg).

# Byw yng Nghymru

### 4.1 Teuluoedd yn mwynhau

- 90% Yr amgylchedd ffisegol (cefn gwlad, rhaeadrau, mynyddoedd, dinasoedd)
- 35% Cwrdd â phobl newydd
- 26% Chwaraeon
- 22% Dysgu am ddiwylliant Cymru
- 16% Cyfleoedd addysgol
- 15% Dysgu iaith newydd.

*116 ymateb*

### 4.2.1 Beth sydd wedi helpu plant y Lluoedd Arfog i ymgartrefu mewn cymuned ac ysgol newydd

- 48% Ymweld â'r ysgol cyn symud (cwrdd ag athrawon, plant y dosbarth, deall beth i'w ddisgwyl ar y diwrnod / wythnos gyntaf)
- 40% Ymweld â'r ardal cyn symud
- 31% Pecyn croeso / gwybodaeth am yr ysgol newydd (e.e. ffotograffau, polisïau, clybiau, athrawon, cefnogaeth fugeiliol)
- 28% Defnyddio fforymau cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu gyda theuluoedd eraill yn yr ardal.
- 22% System gyfeillion ysgol
- 21% Rhaglen bontio / gynefino yn yr ysgol
- 20% Cael person dynodedig mewn ysgol i gefnogi gyda'r pontio
- 19% Manylion gweithgareddau allgyrsiol a gynigir yn yr ysgol a'r ardal leol
- 17% Gwybodaeth am Gymru a diwylliant Cymru
- 17% Gwybodaeth am weithgareddau, pethau i'w gwneud a lleoedd i ymweld â nhw yng Nghymru a'r ardal leol.





* Y pedwar All allweddol yw'r rhai sydd â chymunedau milwrol sefydledig (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg).

### 4.2.2 Beth fyddai'n helpu plant y Lluoedd Arfog i ymgartrefu mewn cymuned ac ysgol newydd

- 69% Gwybodaeth am addysg yng Nghymru a'r cwricwlwm
- 66% Cael person dynodedig mewn ysgol i gefnogi gyda'r pontio
- 64% Grŵp/ rhwydwaith cefnogi ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog
- 62% Manylion gweithgareddau allgyrsiol a gynigir yn yr ysgol a'r ardal leol
- 61% Gwybodaeth am y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- 59% Gwybodaeth am weithgareddau, pethau i'w gwneud a lleoedd i ymweld â nhw yng Nghymru a'r ardal leol
- 59% Cyfeirio a manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau perthnasol
- 57% Pecyn croeso / gwybodaeth am yr ysgol newydd (e.e. ffotograffau, polisïau, clybiau, athrawon, cefnogaeth fugeiliol)
- 54% Gwybodaeth am ddysgu Cymraeg
- 54% Rhaglen bontio / gynefino yn yr ysgol
- 50% Trosglwyddiad cyflym cofnodion rhwng ysgolion i sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn anghenion cefnogaeth
- 50% System gyfeillion ysgol.

*90 ymateb*

### 4.3 Ymwelwyd â gwefan SSCE Cymru

- 17% Do
- 32% Naddo
- 50% Ddim yn gwybod am SSCE Cymru.

*111 ymateb*

**Arsylwadau Allweddol**

- Mae'r ymatebion am yr hyn sydd wedi cynorthwyo plant y Lluoedd Arfog i ymgartrefu mewn cymuned ac ysgol newydd yn awgrymu thema gref o ran cynllunio gadarn, cyfathrebu a darparu gwybodaeth.
- Mae'r mathau o bethau a fyddai o fantais yn dilyn themâu tebyg i'r hyn sydd wedi bod o fantais, ond mae canrannau'r ymatebion yn llawer uwch. Mae hyn yn awgrymu bod y mathau o gefnogaeth sydd yn eu lle yn effeithiol, ond dylent fod ar gael yn ehangach.



* Y pedwar All allweddol yw'r rhai sydd â chymunedau milwrol sefydledig (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg).

# Beth nesaf?

- Defnyddir y dystiolaeth o'r adroddiad hwn i gefnogi newidiadau i bolisïau a systemau mewn ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.
- Bydd SSCE Cymru yn parhau i annog ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru i adnabod plant y Lluoedd Arfog.
- Bydd canfyddiadau'r arolwg yn effeithio ar gynnwys pecynnau Rhieni SSCE Cymru newydd, i'w lansio erbyn diwedd 2021
- Bydd adnoddau newydd SSCE Cymru yn cael eu datblygu, gan ystyried yr hyn y mae plant y Lluoedd Arfog, ysgolion a rhieni/gofalwyr wedi'u nodi y byddai'n fanteisiol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.
- Bydd SSCE Cymru yn codi ymwybyddiaeth o'i nod a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd y Lluoedd Arfog trwy ysgolion ac aelodau Rhwydwaith SSCE Cymru.
- Bydd SSCE Cymru yn parhau i gynnal gweithgareddau sy'n sicrhau bod lleisiau teuluoedd y Lluoedd Arfog yn cael eu clywed ac yn cyfrannu tuag at siapio gweithgareddau a gynhelir gan SSCE Cymru.




SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU




**Cyfeiriadau delwedd**

**(http://www.defenceimagery.mod.uk/fotoweb/):**

**Tudalen 1:** Soldier returning from Afghanistan. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011 ©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2018

Royal Welsh Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011

HMS Montrose. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2010

Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2015

**Tudalen 6:** 40 Commando Royal Marines Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2014

**Tudalen 11:** ©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2018

## SSCE Cymru

**Arolwg rhiant/gofalwr Gwasanaeth**
(2020) – canfyddiadau